AMGUEDDFA CYMRU
YMWADIAD REALITI RHITHWIR
HYSBYSIAD PWYSIG

Mae Realiti Rhithwir ("VR") yn dechnoleg newydd sy'n datblygu o hyd. Yn yr un modd ag unrhyw dechnoleg newydd arall, mae'r ymchwil yn gyfyngedig i effeithiau hirdymor defnyddio VR, ac mae rhai risgiau yn ymwneud â'i ddefnydd. Oherwydd rhai o'r risgiau hyn, mae Amgueddfa Cymru angen i chi ddarllen a llofnodi'r datganiad ymwadiad hwn cyn i chi gymryd rhan yn y profiad VR, er mwyn lleihau'r risg o niwed neu anghysur personol.

Yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, nid ydym yn caniatáu i blant o dan 13 ddefnyddio'r setiau VR.

RISGIAU POSIBL

Ein blaenoriaeth yw fod pob ymwelydd yn mwynhau'r profiad mewn amgylchedd diogel.
Isod mae rhestr o broblemau a allai effeithio arnoch chi wrth ddefnyddio'r profiad VR. Ni allwn ddileu risg y rhain yn gyfan gwbl. Darllenwch y rhain yn ofalus ac ystyried sut gallen nhw effeithio arnoch chi, cyn i chi lofnodi'r Ymwadiad hwn.

Anghysur: straen ar y llygaid; golwg aneglur, gweld yn wahanol neu weld dwbl; salwch symud; cyfog; diffyg ymwybyddiaeth; pendro; syrthni; colli balans neu gydsymudiad llaw a llygaid; dryswch

Nam ar y clyw: gall gwrando ar sain uchel drwy'r clustffonau achosi niwed parhaol i'ch clyw. Mae modd rheoli sain y clustffonau, i leihau'r risg o nam ar y clyw

Ffit: wedi'i hachosi gan sgriniau gwibiol a delweddau neu batrymau fflachiog a all ddigwydd wrth brofi'r VR

Ymyrraeth â dyfeisiau meddygol: gall yr offer VR effeithio ar rai dyfeisiau meddygol megis rheoliadur calon cardiaidd neu ddyfeisiau meddygol eraill wedi'u mewnosod

Cyflyrau iechyd sydd eisoes yn bodoli: gall yr offer VR (gan gynnwys y setiau a chadeiriau rymblo) a'u cynnwys effeithio ar y rheiny sydd eisoes â chyflyrau meddygol (megis afiechyd y galon), cyflyrau iechyd meddwl (megis pryder neu anhwylder straen wedi trawma), neu waethygu niweidiau corfforol (megis cyflyrau cefn neu wddf)

Beichiogrwydd: Gall ddefnyddio'r profiad VR effeithio'n negyddol ar fenywod beichiog

Ymgolli: Mae'n bosibl teimlo clawstroffobia, panig neu ffobiâu eraill wrth ddefnyddio'r offer VR.

Rydym yn argymell i chi BEIDIO defnyddio'r profiad VR os ydych wedi blino, yn sâl, o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, yn dioddef pen mawr, mewn poen, neu'n teimlo dan bwysau neu'n bryderus, oherwydd gall y ffactorau hyn gynyddu eich risg o broblemau posibl.

Stopiwch ddefnyddio offer VR ar unwaith os ydych yn teimlo'n anesmwyth.

RHEOLAU

Rhaid i chi fod yn gyfrifol ac yn gall bob amser.

Rhaid i chi ddilyn unrhyw rybuddion neu gyfarwyddiadau diogelwch gaiff eu dangos neu gaiff eu rhoi i chi gan aelod o staff.

Nid ydym yn gymwys i fynegi barn eich bod yn iawn i gymryd rhan yn y profiad VR yn ddiogel.

DATGANIAD YMWADIAD

MAE'N BWYSIG EICH BOD YN DARLLEN AC YN DEALL Y DATGANIAD HWN CYN EI LOFNODI.

Rydw i (neu fy mhlentyn/dibynnydd/person ifanc) eisiau cymryd rhan ym mhrofiad Realiti Rhithwir yr Amgueddfa ac yn cytuno â'r canlynol:

1. Rwy'n cydnabod ac yn deall bod cymryd rhan yn y profiad VR yn cynnwys risgiau penodol

2. Rydw i (neu fy mhlentyn/dibynnydd/person ifanc) yn cymryd rhan yn y profiad VR yn wirfoddol

3. Rwy'n cydnabod, yn absenoldeb unrhyw esgeulustod neu doriad o ddyletswydd gan Amgueddfa Cymru, fy mod yn cymryd rhan yn y profiad VR a defnyddio'r offer VR ar fy nghyfrifoldeb fy hun

4. Rwy'n cydnabod fy mod wedi darllen a deall holl delerau'r Ymwadiad VR hwn

5. (Os yw'r profiad yn cael ei ddefnyddio gan blentyn/dibynnydd/person ifanc) Fi yw rhiant neu warcheidwad y person ifanc a enwyd isod. Mae gennyf hawl cyfreithiol i gydsynio, a gan hynny, drwy lofnodi isod rwyf yn cydsynio i delerau'r Ymwadiad VR hwn.

Rwyf yn deall bod rhaid i mi lofnodi'r Datganiad Ymwadiad hwn cyn i fi neu'r person ifanc rwyf yn rhoi caniatâd ar ei ran allu cymryd rhan yn y profiad VR.

Enw'r Person sy'n Cymryd Rhan	
Enw Llawn Rhiant/Gwarcheidwad Cyfreithiol (lle bo'n berthnasol)	
Oedran y Person sy'n Cymryd Rhan (os o dan 18)	
Rhif ffôn mewn Argyfwng (os o dan 18)	
Cyfeiriad E-bost (Opsiynol)	

Llofnod	
Dyddiad	

CANIATÂD CYSYLLTU

Hoffem yrru'r newyddion diweddaraf ynghylch digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau Amgueddfa Cymru. Ydych chi'n fodlon i ni gadw mewn cysylltiad?

E-bost

- Ydw
- Nac ydw

SMS

- Ydw
- Nac ydw

Mae eich cefnogaeth chi yn help i ni ysbrydoli pawb rydym yn eu cyrraedd drwy stori Cymru. Ydych chi'n hapus i ni gysylltu gyda chi weithiau i sôn am y gwahanol ffyrdd y gallwch gefnogi ein gwaith?

E-bost

- Ydw
- Nac ydw

SMS

- Ydw
- Nac ydw

DEWISWCH EICH DIDDORDEBAU

Ein Hamgueddfeydd

- Big Pit
- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
- Amgueddfa Lechi Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- Amgueddfa Wlân Cymru
- Sain Ffagan

Ein rhaglen

- Digwyddiadau Cymunedol
- Cyrsiau
- Arddangosfeydd

- [ ] Gweithgareddau i Deuluoedd
- [ ] Digwyddiadau Hwyrnos
- [ ] Digwyddiadau ar-lein
- [ ] Sgyrsiau

Eich dewis iaith

- [ ] Saesneg
- [ ] Cymraeg

Diolch am lenwi'r ffurflen hon! Gobeithio y byddwch yn mwynhau Antur: Y Ddaear.